# Cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’r gweithgareddau sy’n ofynnol i gynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau. Gall cyfarpar a pheiriannau weithio â llaw neu weithio’n fecanyddol.

Mae cynnal a chadw’n cynnwys gwirio cyfarpar a pheiriannau o bryd i’w gilydd yn unol ag argymhelliad y gwneuthurwr. Gwneir hyn i wneud y mwyaf o berfformiad ac oes gweithio cyfarpar a pheiriannau. Hefyd, mae’n cwmpasu atgyweiriadau sy’n ofynnol oherwydd diffygion neu namau. Byddwch yn cyflawni’r holl weithgareddau yn unol â chyfarwyddiadau a manylebau.

Wrth weithio gyda chyfarpar a pheiriannau, mae’n rhaid eich bod wedi’ch hyfforddi’n briodol a rhaid bod gennych ardystiad cyfredol, lle bo angen, yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae’n rhaid i’ch gwaith gydymffurfio â’r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau’r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

Mae’r safon hon yn addas i bobl sy’n cynnal a chadw ac yn atgyweirio cyfarpar a pheiriannau, fel mater o drefn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
2. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
3. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
4. cadarnhau bod yr holl hyfforddiant ac ardystiad sy'n ofynnol i gynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau wedi'u cwblhau yn unol â gofynion deddfwriaethol, y gwneuthurwr a gofynion sefydliadol
5. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
6. dewis, paratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio'r offer a'r cyfarpar sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn ddiogel, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
7. cadarnhau bod yr holl gyfarpar wedi cael ei wirio, ei brofi, lle bo angen, a'i fod yn addas at ei ddiben, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
8. nodi'r cyfarpar a'r peiriannau sydd angen eu cynnal a chadw a'u hatgyweirio
9. archwilio cyfarpar a pheiriannau i bennu'r gofynion cynnal a chadw ac atgyweirio a chofnodi hyn, gyda dyddiad, yn unol â gofynion cyfreithiol
10. os na ellir atgyweirio ar unwaith, labelu'r eitem neu roi tag arni a'i hatal rhag cael ei defnyddio, yn unol â gofynion cyfreithiol
11. dod o hyd i leoliad y cyfarwyddiadau cynnal a chadw perthnasol a manylebau'r gwneuthurwr ar gyfer y cyfarpar a'r peiriannau sy'n cael eu cynnal a chadw
12. paratoi cyfarpar a pheiriannau i'w cynnal a chadw a'u hatgyweirio yn ddiogel ac yn unol â'r cyfarwyddiadau cynnal a chadw perthnasol a manylebau'r gwneuthurwr
13. cymryd y camau rhagofalus cywir i atal sylweddau rhag dianc a lleihau peryglon o halogi a chemegion peryglus
14. nodi a marcio cydrannau y mae angen eu tynnu ar led a'u rhoi'n ôl at ei gilydd
15. cael y cydrannau a'r rhannau newydd sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn unol â manylebau'r gwneuthurwr
16. gwirio'r cydrannau a'r rhannau newydd cyn eu ffitio a chyfeirio at y gwneuthurwr

am opsiynau eraill os nad ydynt ar gael
17. cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau fel mater o drefn yn unol â'r cyfarwyddiadau cynnal a chadw perthnasol a manylebau'r gwneuthurwr
18. cadw'r ardal waith yn ddiogel ac mewn cyflwr addas ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio
19. gosod a graddnodi cyfarpar a pheiriannau, lle bo gofyn, ar ôl cynnal a chadw ac atgyweirio, yn unol â'r cyfarwyddiadau cynnal a chadw perthnasol a manylebau'r gwneuthurwr
20. profi'r cyfarpar a'r peiriannau ar ôl cynnal a chadw ac atgyweirio, yn unol â'r cyfarwyddiadau cynnal a chadw perthnasol a manylebau'r gwneuthurwr
21. ailarchwilio cyfarpar a pheiriannau ar ôl cynnal a chadw ac atgyweirio a chofnodi, gyda dyddiad, eu bod yn ddiogel i ailddechrau gweithio
22. glanhau, gwasanaethu a storio'r offer a'r cyfarpar a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn ddiogel ac yn gywir
23. delio â gwastraff yn ddiogel ac yn gywir, yn unol â gweithdrefnau'r safle
24. delio'n effeithiol â phroblemau sy'n codi o fewn cwmpas a chyfyngiadau eich cyfrifoldebau eich hun a rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
25. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy’n berthnasol i’r gwaith gofynnol
2. y peryglon sy’n gysylltiedig â chynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau
3. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a’r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
4. y gofynion deddfwriaethol, gofynion y gwneuthurwr a gofynion sefydliadol ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau a phryd mae angen hyfforddiant neu ardystiad ychwanegol i wneud gwaith cynnal a chadw ac amnewid rhannau
5. yr offer, y cyfarpar a’r cyfarpar diogelu personol (PPE) y mae eu hangen i wneud y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a sut i ddewis, paratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio’r rhain yn ddiogel, yn unol â’r gofynion cyfreithiol perthnasol, cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
6. y gofynion cyfreithiol ar gyfer gwirio a phrofi cyfarpar a pham mae’n bwysig cynnal pob cyfarpar i safon uchel
7. y risgiau iechyd a diogelwch posibl sy’n deillio o ddiffyg cynnal a chadw cyfarpar a pheiriannau, neu gynnal a chadw o ansawdd gwael
8. y dulliau archwilio ar gyfer cyfarpar a pheiriannau i bennu’r gofynion cynnal a chadw ac atgyweirio a pha mor aml y dylai’r rhain gael eu cyflawni
9. y dulliau ar gyfer asesu diffygion a namau a nodi’r rhesymau sylfaenol
10. y gofynion cyfreithiol ar gyfer cofnodion cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau
11. y cyfarwyddiadau a’r manylebau y mae eu hangen ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau, a’r gweithredoedd a allai annilysu gwarant y gwneuthurwr
12. pryd mae angen gwasanaethu cyfarpar a pheiriannau, a’u hatgyweirio, gan asiant awdurdodedig
13. ble i ddod o hyd i leoliad y cyfarwyddiadau a’r manylebau cynnal a chadw ar gyfer y cyfarpar a’r peiriannau
14. y dulliau o baratoi cyfarpar a pheiriannau ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio
15. y peryglon sy’n cael eu creu gan ynni wedi’i storio a phresenoldeb cemegion a sylweddau peryglus, a sut dylid delio â’r rhain
16. y cydrannau a’r rhannau y mae angen eu newid bob hyn a hyn a’r rhesymau dros hynny

17. y gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cael cydrannau a rhannau newydd a beth i'w wneud os ydynt yn anghywir neu os nad ydynt ar gael
18. sut i farcio cydrannau i'w tynnu ar led a'u rhoi'n ôl at ei gilydd, a'r rhesymau dros wneud hyn
19. swyddogaeth a gofynion cynnal a chadw cydrannau unigol
20. y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd difrod a thraul i gydrannau y tu hwnt i derfynau argymelledig y gwneuthurwr
21. y dulliau ar gyfer gosod neu raddnodi cyfarpar a pheiriannau ar ôl cynnal a chadw ac atgyweirio
22. pwysigrwydd profi ac ailarchwilio'r cyfarpar a'r peiriannau ar ôl cwblhau'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i gadarnhau eu bod yn ddiogel ac yn gweithio'n dda cyn dechrau eu hailddefnyddio eto
23. sut i drin, cludo, storio a gwaredu gwastraff a chemegion a sylweddau peryglus, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
24. yr effaith bosibl y gallai eich gwaith ei chael ar yr amgylchedd a sut gellir lleihau hyn
25. y problemau a all ddigwydd wrth gynnal a chadw ac atgyweirio, a'r camau i'w cymryd a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys
26. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
27. y gofynion cyfreithiol a sefydliadau ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

## Geirfa

Gallai **cyfarpar a pheiriannau** gynnwys:

- cyfarpar pŵer llaw
- cyfarpar pŵer wedi'i lywio ar droed
- cyfarpar gosodedig

Gallai **cemegion a sylweddau peryglus** gynnwys:

- tanwyddau
- olewau
- hylifau
- nwyon
- llwch
- aer cywasgedig

**Cyfarwyddiadau a manylebau:**

- lluniadau/cynlluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- cyfarwyddiadau ar lafar

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

**System Weithio Ddiogel (SSoW)** – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

**Ynni wedi'i storio:**

- sbringiau
- tyniant belt
- pwysedd hydrolig
- gollyngiad trydanol

## Cysylltiadau â SGC eraill

Mae cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol cyfarpar a pheiriannau tir yn dod o dan gyfres Gweithrediadau Peiriannau Tir.

Cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a pheiriannau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 7 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedyddiaeth a choedwigaeth, Gofalwr y Grîn, Gweithiwr Ystâd, Gweithiwr Fferm Cyffredinol, Gweithredwr Peiriannau Amaethyddol, Ffermio Pysgod, Garddwriaeth |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol, Cynhyrchu Da Byw, Garddwriaeth, Gwaith coed, Dyframaethu, Rheoli Pysgodfeydd, Rheoli Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt |
| **Geiriau Allweddol** | peiriannau; offer; cyfarpar; mecanyddol; atgyweirio; cynnal a chadw |